# YR ATODLENNI

## ATODLEN 5

Erthygl 31

## ER MWYN DIOGELU ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD

**1.**—(1) Er mwyn diogelu Asiantaeth yr Amgylchedd (y cyfeirir ati yn yr Atodlen hon fel "yr Asiantaeth"), bydd y darpariaethau a ganlyn mewn effaith oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig rhwng yr ymgymerwr a'r Asiantaeth.

(2) Cyn cyflawni unrhyw waith o dan bwerau'r Gorchymyn hwn sy'n ymwneud ag adeiladu neu godi unrhyw rhwystr i lif unrhyw gwrs dŵr nad yw'n rhan o brif afon o fewn ystyr adran 113 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**) neu adeiladu, addasu neu ailosod unrhyw gylfat neu unrhyw strwythur a ddyluniwyd i gadw neu i ddargyfeirio llif unrhyw gwrs dŵr felly mewn, o dan neu drwy unrhyw dir a ddelir at ddibenion neu mewn cysylltiad â'r gweithfeydd awdurdodedig, rhaid i'r ymgymerwr roi planiau priodol a digonol ohono i'r Asiantaeth er mwyn iddi eu cymeradwyo, ac ni ddylid mynd ati i wneud y gwaith arfaethedig hyd nes i'r planiau hynny gael eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Asiantaeth.

(3) Ni ddylid gwrthod, yn afresymol, gymeradwyo'r planiau a roddwyd ac, os nad yw'r Asiantaeth wedi cyfleu yn ysgrifenedig nad yw'n bwriadu eu cymeradwyo gan roi ei rhesymau dros hynny o fewn deufis o gyflwyno'r planiau i'r Asiantaeth, bernir i'r Asiantaeth gymeradwyo'r planiau fel y'u cyflwynwyd hwy.

(4) At ddibenion y paragraff hwn, mae "planiau" ("*plans*") yn cynnwys trawsluniau, darluniau, manylebau, cyfrifiadau a disgrifiadau.

(5) Rhaid i unrhyw gylfat neu unrhyw strwythur sydd wedi'i dylunio i gadw neu i ddargyfeirio llif unrhyw gwrs dŵr, sef cylfat neu strwythur a leolir o fewn unrhyw dir a ddelir gan yr ymgymerwr at ddibenion neu mewn cysylltiad â'r gweithfeydd awdurdodedig, boed wedi'i hadeiladu o dan bwerau'r Gorchymyn hwn neu wedi'i hadeiladu cyn i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud, gael ei chynnal a'i chadw gan yr ymgymerwr mewn cyflwr da ac yn rhydd o unrhyw rhwystr.

(6) Ni fydd effaith unrhyw beth ym mharagraff (5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgymerwr gyflawni gwaith cynnal a chadw mewn perthynas ag unrhyw gylfat neu strwythur y mae'r Asiantaeth neu unrhyw berson arall yn atebol i'w chynnal.

(7) Os adeiladir neu godir unrhyw rwystr, neu os adeiladir, addasir neu ailosodir unrhyw gylfat yn groes i'r erthygl hon, rhaid i'r ymgymerwr, pan dderbynia hysbysiad yr Asiantaeth, gymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol i wella effaith mynd yn groes i'r erthygl hon hyd nes bod yr Asiantaeth wedi'i bodloni'n rhesymol, ac, fel arall, caiff yr Asiantaeth ei hunan gymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol gan adennill y costau a dynnwyd yn rhesymol wrth wneud hynny oddi wrth yr ymgymerwr fel dyled rhyngddo ef a'r Asiantaeth.

(8) Rhaid i unrhyw wahaniaethau rhwng yr ymgymerwr a'r Asiantaeth o dan yr Atodlen hon (ac eithrio gwahaniaeth ynglyn â'i hystyr neu ei dehongliad) gael eu penderfynu drwy gymrodeddu.

(**1**) 1991 p.57.